Y FADFALL DDŴR GRIBOG

Mae'r fadfall ddŵr gribog yn un o amffibiaid mwyaf trawiadol Ewrop. Bydd y ddau ryw yn tyfu hyd at 15cm o hyd. Mae croen y cefn yn frown tywyll i ddu, gyda sbotiau tywyllach, teimlad gronynnog, a sbotiau gwyn mân iawn ar y ddwy ochr. O'i gyferbynnu, mae tu isaf y madfall wedi'i farcio'n drawiadol mewn oren-felyn a du. Yn ystod y tymor bridio bydd y gwryw yn datblygu cribau amlwg ar ei gefn a bydd ganddo streipiau ariannaidd ar ei gynffon.

YMHLE Y GWELIR MADFALLOD DŴR CRIBOG

Deuir o hyd i fadfallod dŵr cribog mewn cynefinoedd iseldir ar draws Gogledd Ewrop. Mae'r fadfall yma wedi'i dosbarthu'n eang drwy'r rhan fwyaf o Loegr ond mae'n brin yng Nghernyw, Dyfnaint a rhannau o Gymru a'r Alban. Gall ddefnyddio amrywiaeth o leoedd lle mae dŵr wedi crynhoi ar gyfer bridio ond fe'i ceir gan amlaf mewn pyllau o faint cymhedrol i fawr, ar dir fferm yn nodweddiadol. Y tu allan i'r cyfnod bridio bydd angen digon o orchudd tir ar gyfer chwilio am fwyd, cysgodi a gaeafgysgu. Fel arfer bydd yn gwneud hyn mewn glaswelltir garw sydd heb gael ei droi, prysgwydd neu goetiroedd.

PROBLEMAU A BYGYTHIADAU

Os ydynt am ffynnu, mae amffibiaid angen rhwydweithiau o byllau ŵdwr wedi'u cysylltu â chynefin addas.

Mae lleihad cyffredinol yn nifer yr amffibiaid wedi cael ei achosi gan amaethu mwy dwys a chan ddatblygiadau trefol, y ddau wedi cael effaith niweidiol iawn ar byllau dŵr a'r tir sy'n eu hamgylchynu.

Mae'r fadfall ddŵr gribog yn gofyn ychydig mwy o ran anghenion cynefin na'r amffibiaid Prydeinig eraill eang eu dosbarthiad ac mae wedi cael ei heffeithio'n fwy difrifol gan ddatblygiadau diweddar.

Os na fydd pyllau yn cael eu rheoli gallant golli eu gwerth i fadfallod oherwydd eu bod yn llawn llaid neu wedi'u cysgodi'n ormodol gan goed.

Mae rhoi pysgod mewn pyllau a chyfyngu madfallod i byllau ynysig ymhlith y bygythiadau difrifol eraill.

madfall ddŵr gribog (benyw) ar y tir

GWEITHREDU YN ENW CADWRAETH

Wrth i'r fadfall ddŵr gribog ddod yn llai cyffredin ym Mhrydain, mae'n cael ei chydnabod fel blaenoriaeth ar gyfer gweithredu cadwraethol. Mae'n cael ei hamddiffyn o dan gyfraith Prydain ac Ewrop. Mae Cynllun Gweithredu Cenedlaethol er Gwarchod Rhywogaeth (CGGRh), sy'n cael ei gefnogi gan Lywodraeth Prydain, yn cael ei weithredu er mwyn cynnal yr amrywiaeth o fadfallod, eu dosbarthiad a hyfywdra'r poblogaethau presennol. Gallwch chi helpu i warchod y fadfall ddŵr gribog trwy:

- greu pyllau newydd
- adfer pyllau sydd wedi dirywio o ran eu cyflwr
- reoli cynefinoedd i fadfallod ar y tir
- anfon manylion i'r Canolfannau Cofnodi Biolegol lleol os ydych wedi gweld madfallod

Mae'r Ymddiriedolaeth Herpetolegol Gadwraethol, Froglife a'r Gymdeithas Herpetolegol Brydeinig yn Bartneriaid sy'n arwain y CGGRh ac maent yn cydweithio gydag eraill er mwyn gwella statws y math yma o fadfall ym Mhrydain.

Gellir cael mwy o wybodaeth am ecoleg y fadfall ddŵr gribog a'r modd y gellir ei gwarchod yn y llawlyfr Great Crested Newt Conservation Handbook gan Tom Langton, Catherine Beckett a Jim Foster a gyhoeddwyd gan Froglife (2001)

Lluniau gan Tim Bernhard, hawlfraint 2002

The Herpetological Conservation Trust
Yr Ymddiriedolaeth Herpetolegol Gadwraethol

655a Christchurch Road, Boscombe,
Bournemouth, Dorset BH1 4AP.
Tel. 01202 391319
www.herpconstrust.org.uk

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

FWAG CYMRU

Printed by Chameleon Print 01329 280197

GWARCHOD Y FADFALL DDŴR GRIBOG

CANLLAW BYR AR GYFER RHEOLI CYNEFIN



Yn ystod yr ugeinfed ganrif bu lleihad sylweddol yn niferoedd y madfallod dŵr cribog. Mae eu dyfodol yn dibynnu ar gynnal y cytrefi sy'n bodoli ar hyn o bryd ac ar greu rhai newydd


Er mwyn rhwystro rhywogaethau o blâu rhag lledu, peidiwch â rhoi unrhyw blanhigion nac anifeiliaid sydd wedi dod o byllau yn yr ardd neu o ganolfannau garddio mewn pyllau yng nghefn gwlad.
Bydd waliau cerrig sych a gwrychoedd yn lleoedd i fadfallod guddio ac yn llwybr diogel rhwng pyllau.
Mae prysgwydd a choetir heb eu troi yn gynefin da ar y tir
Mae glaswelltir heb ei droi neu sydd ond wedi'i bori'n ysgafn yn rhoi cyfle i fadfallod guddio yn nhyllau mamaliaid, o dan foncyffion, creigiau ac yn y blaen neu mewn tyllau ac agennau.
Pan geir nifer fawr o hwyaid a gwyddau byddant yn bwyta llystyfiant y pwll ac yn llygru'r dŵr.
Mae llystyfiant garw o gwmpas y pwll yn rhoi cysgod i fadfallod ifanc sydd newydd ddod i'r lan
Mewn rhannau o'r pwll lle na cheir chwyn bydd madfallod gwryw yn arddangos eu hunain ac yn ceisio denu'r madfallod benyw.
Bydd pysgod yn bwyta larfâu madfallod o bob maint. Gall pysgod ddifa cytref gyfan o fadfallod.
Bydd madfallod yn aml yn cuddio o dan bethau sydd wedi'u gadael ar y llawr.
Bydd chwyn dŵr yn y mannau bas yn cael eu defnyddio ar gyfer dodwy wyau ac maent yn fannau da i hela larfâu madfallod ifanc
PWLL Y FADFALL DDŴR GRIBOG A THIR CYFAGOS
Mae mafallod angen pyllau mewn safleoedd heulog a thir cynhaliol o'u hamgylch


Mae pyllau anghysbell yn agored i newidiadau naturiol ac i weithredoedd sy'n ymddangos yn ddiniwed i bobl. Mae'r newidiadau yma yn eu gwneud yn llai addas ar gyfer madfallod sydd â'u bodolaeth tymor hir yn dibynnu ar gael mwy o byllau o fewn rhyw gan medr.
Bydd pyllau mewn caeau yn aml yn gwneud safleoedd bridio da ar gyfer madfallod dŵr cribog.
Bydd pyllau a chwareli bychain sydd ddim yn cael eu defnyddio yn gwneud pyllau a chynefin tir da ar gyfer madfallod.
Ceir pyllau da ar gyfer madfallod mewn trefi, pentrefi a choetiroedd agored
Mae pori isel sy'n gadael ffurf dwmpathog i'r borfa yn cynnal cynefin da ar gyfer madfallod
Dylid cadw pyllau ymhell oddi wrth ffosydd ac yn y blaen er mwyn lleihau'r siawns o lygru'r dŵr neu'r posibilrwydd y bydd pysgod yn mynd i'r pwll yn ddamweiniol
Gall madfallod groesi ffyrdd cul yn hawdd Bydd ffyrdd lletach a rhai gydag ymyl palmant uwch yn achosi problem ddifrifol wrth i'r madfallod symud nôl neu 'mlaen o'u pyllau.
Gall gwrychoedd, waliau cerrig sych a thalarau fod yn gyswllt rhwng pyllau.
Gall ffensio rwystro gwartheg rhag sathru a baeddu pyllau
Does dim rhaid i byllau da ar gyfer madfallod edrych yn ddel. Efallai na fydd sbwriel hyll mor beryglus i fadfallod ag y mae'n ymddangos er y gall rhai mathau o sbwriel lygru'r dŵr. Ni ddylid dymchwel defnydd gwastraff mewn pyllau ac mae'n well tynnu allan unrhyw wastraff sydd yn y pwll yn barod.
Bydd pentwr o rwbel a waliau cerrig sydd wedi dymchwel yn cael eu defnyddio'n aml fel lleoedd cuddio gan fadfallod - felly peidiwch â bod yn rhy daclus.'
PYLLAU YN Y TIRWEDD
Ni ddylai grwpiau o byllau'r madfallod dŵr cribog fod yn fwy nag ychydig gannoedd o fetrau oddi wrth ei gilydd gyda thir addas rhyngddynt. Mae creu pyllau newydd yn ymyl rhai sy'n bodoli'n barod yn cynyddu'r siawns y bydd cytref newydd yn goroesi yn y tymor hir. Unwaith y bydd wedi cael ei dyllu, mae'n well gadael i byllau newydd ddatblygu yn eu hamser eu hunain. Efallai y bydd angen rhywfaint o waith cynnal a chadw ymhen ychydig flynyddoedd; canol yr hydref yw'r adeg gorau i wneud hyn ar ôl i'r madfallod adael y dŵr. Gan ei bod yn rhywogaeth sy'n cael ei hamddiffyn, bydd angen trwydded ar gyfer rhai mathau o waith rheolaeth cynefin, a dylid gofyn am gyngor gan English Nature, Cyngor Cefn Gwlad Cymru neu gan Scottish Natural Heritage.